**Dyddiad:** 1 Rhagfyr 1999

**Amser:** 9.00am - 12:30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

## Cig Eidion ar yr Asgwrn: Datganiad gan y Prif Swyddog Meddygol

Diolch i'r Cadeirydd am ganiatáu i mi gyflwyno rhai sylwadau rhagarweiniol. Rwyf yn ddiolchgar iawn am gael y cyfle hwn i siarad â'r Pwyllgor am y ffordd rwyf wedi mynd i'r afael â, a'r ffordd rwyf yn parhau i fynd i'r afael â'r dasg o gyflwyno cyngor ar oblygiadau iechyd dynol BSE mewn gwartheg ac, yn arbennig, y gwaharddiad ar werthu esgyrn cig eidion.

Mae hwn yn fater sy'n peri cryn bryder i'r cyhoedd ac rwyf yn gwybod bod llawer o bethau yn y fantol. Rwyf yn gwbl ymwybodol o'r cyfrifoldebau sydd gennyf fel ymgynghorydd. Wrth gwrs, rwyf yn awyddus iawn i weld unrhyw gyfyngiadau dianghenraid yn cael eu diddymu, yn enwedig ar adeg mor anodd i'n cymunedau gwledig. Rwyf yn ymwybodol iawn hefyd o'r cynnydd sylweddol sy'n cael ei wneud o ran delio â BSE yn ein gwartheg ac o'r rhwystredigaeth ddealladwy ymhlith rhai ynghylch yr hyn a ddywedais - mewn cysylltiad ag esgyrn - nad ydym wedi llwyddo i ddiddymu nac, yn wir fesur yn hyderus y risg bosibl i ddefnyddwyr hyd yn hyn.

Fel y Prif Swyddog Meddygol, dim ond drwy gyfrwng fy hyfforddiant proffesiynol fel meddyg iechyd cyhoeddus a chyda'r parch cydwybodol tuag at y ddyletswydd sydd gennyf y gallaf fynd i'r afael â'm tasg o gynghori - sef i wneud fy ngorau er lles iechyd pobl Cymru. Mae'r cyngor a roddwyd gennyf yn adlewyrchu hyn.

Gellid maddau i'r dyn ar y stryd am feddwl bod y rheoliadau ar esgyrn cig eidion yn ymwneud â stecen ar yr asgwrn neu gymal asen ac yn wir, maent yn rhan o'r hyn sy'n cael ei wahardd. Ond yn nhermau iechyd cyhoeddus, byddai'r broblem yn un llawer haws os mai dyma'r cyfan fyddai gennym i'w drafod. Gall cwsmer weld y stecen ar yr asgwrn a gallant ddewis (neu beidio) cymryd sylw o rybudd gennyf fi bod risg bosibl yn gysylltiedig â'r esgyrn.

Ar ôl i'r cig gael ei fwyta (gan unigolion preifat) caiff yr esgyrn eu taflu, neu eu defnyddio ar gyfer stoc hwyrach. Byddai'r prynwr yn ymwybodol o'r risg bosibl, er, o ran y stoc, mae'n debyg na fyddai gwestai cinio.

Ym maes arlwyo, mae’r mater yn dod yn anoddach ac ym maes prosesu bwyd, mae’n anoddach fyth i ddelio â’r problemau. Defnyddir cig eidion neu ei sgîl-gynnyrch mewn cynnyrch na fyddai rhai ohonom yn credu sy’n cynnwys cig eidion. Nid yw dewis y defnyddiwr, y mae nifer o bobl yn dadlau drosto, yn un hawdd i’w wneud. Mae’r gwaharddiad presennol yn golygu nad yw hyn yn fater o adael i’r defnyddiwr i fod yn wyliadwrus.

Bydd y meddyg iechyd cyhoeddus yn ymwybodol o bwysigrwydd yr "egwyddor ragofal" o ran diogelu iechyd y cyhoedd. Os gallwch hysbysu pobl am y risg a sut i’w hosgoi, byddai’r "egwyddor ragofal" yn caniatáu ei werthiant. Mae gwerthu cnau a chynnyrch sy’n cynnwys cnau yn un enghraifft. Os na allwch rybuddio pobl, neu roi arweiniad iddynt, ynglí n â’r risg bosibl, mae’r "egwyddor ragofal" yn golygu na ddylech ganiatáu i’r cynnyrch dan sylw gael ei werthu. Dyma yw’r sefyllfa gyda chig eidion ar yr asgwrn. Ond yn erbyn y cefndir o nifer is o achosion o BSE mewn gwartheg a phosibilrwydd sy’n gostwng o ran y posibilrwydd y byddai rhannau heintus yn cyrraedd y gadwyn fwyd petai’r gwaharddiad yn cael ei godi. Mae’r sefyllfa’n datblygu.

Mae 48 o bobl wedi marw o vCJD. Mae nifer o’r achosion hyn wedi cynnwys pobl ifanc. Mae’n rhaid i mi wneud popeth y gallaf i fodloni fy hun o fewn fy ngallu dynol - ac yna rwyf yn bwriadu eich bodloni chi hefyd - a sicrhau, os bydd fy nghyngor yn arwain at godi’r gwaharddiad, na fydd hyn yn arwain at rannau heintus yn golygu marwolaethau pellach - sef yr hyn a olygir gan vCJD - yn y blynyddoedd i ddod.

Rwyf yn dweud "Fi", ond wrth gwrs rwyf yn gweithio’n agos iawn â’m cydweithwyr CMO yn cynnwys Liam Donaldson. Nid oeddwn i na dau o’m cydweithwyr yn cytuno ei bod yn bosibl ym mis Gorffennaf i fod yn sicr bod gwerth y gwaharddiad mor ymylol â’r hyn a awgrymodd yr Athro Donaldson yn ei gyngor, ond y dehongliad hwn oedd y prif wahaniaeth barn rhyngom. Mewn perthynas â hyn, mae’n werth talu sylw arbennig i gyngor yr Athro Donaldson ym mis Gorffennaf ynglí n â’r defnydd o esgyrn mewn prosesu. Ei gyngor ef oedd "byddai cynnal y gwaharddiad ar ddefnyddio esgyrn yn y broses o weithgynhyrchu cynnyrch bwyd (yn cynnwys bwyd babanod) yn ymagwedd synhwyrol a gofalus iawn". Rwyf yn cytuno â hyn, ac mae’n adlewyrchu graddau ein safbwynt proffesiynol a chydlynus ledled y DU.

Rwyf wedi siarad â’r Athro Roy Anderson sy’n arwain grë p ymchwil Rhydychen, sy’n paratoi ei ganlyniadau diweddaraf o ran modelau amlder BSE yn y boblogaeth o wartheg. Mae’r gwaith hwn yn allweddol bwysig o ran ein galluogi i fesur y tebygolrwydd y byddai rhannau heintus yn cyrraedd y gadwyn fwyd pe na fyddai gwaharddiad mewn grym. Rwyf yn disgwyl gweld rhywfaint o wybodaeth am y gwaith hwn cyn diwedd y mis a byddaf yn edrych ar y dystiolaeth ddiweddaraf gyda’m cydweithwyr CMO ynghyd â gwybodaeth arall mae angen ei hystyried. Mae hyn yn cynnwys y ffigurau a’r safbwyntiau diweddaraf am vCJD yn ogystal ag adroddiadau diweddaraf MAFF - a’r safbwyntiau milfeddygol - ynglí n â CJD.

Rwyf yn ymwybodol bod yr ohebiaeth ddiweddar rhwng Mr Ieuan Wyn Jones a’r Athro Anderson wedi cynhyrchu llawer o ddiddordeb. Ni wnaeth llythyr yr Athro Anderson am y model ychwanegu at y

wybodaeth sy’n sail i’m cyngor. Mae’r Athro Anderson yn gryn arbenigwr a’r disgwyl yw na fydd diweddaru’r model mathemategol yn creu unrhyw ganlyniadau annisgwyl iddo. Rwyf yn gobeithio y byddwch yn deall bod yn rhaid i mi, yn rhinwedd fy swydd fel ymgynghorydd statudol, yn hytrach nag ymchwilydd annibynnol, gael canlyniadau sy’n cadarnhau’r sefyllfa cyn y gallaf gynnig cyngor pendant.